



CYMDEITHAS BÊL-DROED CYMRU

Arweiniad i'r Rheolau Diwygiedig ar Fetio, Uniondeb
a Threfnu Canlyniad Gêm

Dylai'r daflen wybodaeth hon gael ei chadw gan y Chwaraewr sy'n cofrestru i gyfeirio ati yn y dyfodol.

Gwybodaeth am Reolau Cymdeithas Bêl-droed Cymru (FAW) mewn perthynas â Betio, Uniondeb a Threfnu Canlyniad Gêm ar gyfer tymor 2016/17.

GWYBODAETH BWYSIG – DARLLENWCH YN OFALUS

Mae'r rheolau'n berthnasol i bob Swyddog Gêm a phawb sy'n gysylltiedig â Chlwb neu Gynghrair yng Nghymru.

Betio

Ni chewch osod unrhyw fet, na derbyn unrhyw fet, ar unrhyw gêm yng Nghymru.

Os yw eich clwb yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth y tu allan i Gymru, megis Cynghrair Pencampwyr Ewrop er enghraifft, ni chewch osod unrhyw fet, na derbyn unrhyw fet, ar eich tîm eich hun. Ni chewch chwaith osod bet, na derbyn bet, ar unrhyw gêm arall yn y gystadleuaeth honno hyd yn oed os yw eich clwb chi wedi ei fwrw allan.

Trefnu Canlyniad Gêm

Ni chewch gynnig, na cheisio cynnig, unrhyw lwgrwobrwy na thâl i unrhyw un er mwyn dylanwadu ar ganlyniad unrhyw gêm, ei datblygiad, sut y caiff ei chynnal, nac unrhyw agwedd arall ar unrhyw gêm. Ni chewch chwaith dderbyn unrhyw lwgrwobrwy na thâl o'r fath.

Tra'n cymryd rhan mewn gêm, rhaid ichi beidio â methu ag ymgymryd â'ch dyletswyddau neu gyfrifoldebau hyd eithaf eich gallu am unrhyw fath o dâl.

Uniondeb

Bydd yn dramgwydd ichi fethu â rhoi gwybod i'r FAW am unrhyw achos o berson, sefydliad neu drydydd parti yn gofyn ichi ddylanwadu ar gwrs a/neu ganlyniad gêm neu gystadleuaeth mewn ffordd anghyfreithlon neu amhriodol.

Bydd hefyd yn dramgwydd ichi fethu â rhoi gwybod am unrhyw wybodaeth neu ymddygiad yn ymwneud ag unrhyw berson, sefydliad neu drydydd parti petaech yn ymwybodol o unrhyw weithgareddau sydd â'r nod o ddylanwadu ar gwrs gêm neu gystadleuaeth mewn ffordd anghyfreithlon neu amhriodol.

Ni ddylech byth ddefnyddio na rhoi i eraill unrhyw wybodaeth a geir drwy gysylltiadau â phobl sy'n ymwneud â'r gêm, sy'n niweidio, neu a allai niweidio, uniondeb gêm neu gystadleuaeth.

Canlyniadau

Gallai mynd yn groes i Reolau Betio, Uniondeb a Threfnu Canlyniad Gêm yr FAW arwain at waharddiad oes o bêl-droed ledled y byd.



CYMDEITHAS BÊL-DROED CYMRU Cyf

FFURFLEN GOFRESTRU DI-GONTRACT OEDOLYN (J3)



ADRAN A – MANYLION Y CHWARAEWR

RHAID i'r adran hon gael ei chwblhau **YN LLAWN** gan y Chwaraewr mewn **PRIFLYTHRENNAU YN UNIG**:

Enw(au) Cyntaf:-

Cyfenw:-

Enw'r **CLWB A'R WLAD** blaenorol yr oeddech wedi cofrestru ar eu cyfer:

Dyddiad Geni:-

Cenedligrwydd:-

Mae angen Cliriad Rhyngwladol ar unrhyw Chwaraewr sydd wedi cofrestru'n flaenorol y tu allan i Gymru; i wneud cais am ITC ticiwch y blwch

Cyfeiriad Post Presennol:-

Man geni (Tref a Gwlad):-

Cod Post:-

Mae'r FAW yn ymrwymedig i ddiogelu preifatrwydd eich gwybodaeth bersonol. Caiff yr holl wybodaeth a ddarperir yn y ffurflen hon ei chadw yn unol â Deddf Diogelu Data 1998. Mae dibenion cadw eich gwybodaeth bersonol wedi'u manylu ym Mholisi Preifatrwydd Porthol CRM yr FAW y gellir ei gael gan Ysgrifennydd eich Clwb, neu drwy www.faw.org.uk, neu gellir gwneud cais i'r FAW drwy ffonio (02920) 435830. Drwy lofnodi'r ffurflen hon, rydych yn cadarnhau:-

1. Rydych wedi darllen a deall Polisi Preifatrwydd Porthol CRM yr FAW
2. Rydych yn cydsynio i'ch gwybodaeth bersonol gael ei chadw a'u rhannu yn unol â Pholisi Preifatrwydd Porthol CRM

Yr wyf drwy hyn yn cydsynio i gofrestru fel chwaraewr Di-Gontract i Glwb Pêl-droed

ar gyfer tymor

 /

yn y gynghrair uchaf fel a fanylir isod:-

a phob Cynghrair a Chystadleuaeth berthnasol a ymgeisir gan y clwb Oedolion a enwir uchod.

Rhif Cofrestru Chwaraewr yr FAW (i'w gwblhau gan Ysgrifennydd y Clwb os yw'n hysbys):-

Llofnod y Chwaraewr:-

Dyddiad Llofnod y Chwaraewr:-

ADRAN B – UNIONDEB

RHAID i'r adran hon gael ei llofnodi gan y Chwaraewr

Fel Isradd (h.y. Chwaraewr i Glwb Cymwys), rwyf yn derbyn fy nghyfrifoldeb i gamp pêl-droed yng Nghymru. Rwyf yn ymwybodol o Reol 38.1 yr FAW mewn perthynas ag uniondeb gemau a chystadlaethau, betio a threfnu canlyniad gêm. Rwyf hefyd yn cadarnhau fy mod wedi derbyn y daflen wybodaeth atodedig.

Llofnod y Chwaraewr:-

Dyddiad Llofnod y Chwaraewr:-

ADRAN C – MANYLION Y CLWB

RHAID i'r adran hon gael ei chwblhau **YN LLAWN** gan Ysgrifennydd y Clwb **MEWN PRIFLYTHRENNAU YN UNIG**:

Enw'r Ysgrifennydd:-

Cyfeiriad Post Presennol:-

Cod Post:-

Rhowch gyfeiriad e-bost gweithredol wrth wneud cais am ITCs:-

Llofnod yr Ysgrifennydd:-

Dyddiad Llofnod yr Ysgrifennydd:-

RHAID I YSGRIFENNYDD Y CLWB SICRHAU Y CAIFF Y FFURFLEN GOFRESTRU HON EI HANFON I YSGRIFENNYDD COFRESTRU'R GYNGHRAIR AR GYFER CYNGHRAIR UWCH Y CLWB

YN UNOL Â RHEOLAU CYMDEITHAS BÊL-DROED CYMRU, COFIWCH NODI:

- Dim ond ag **UN** clwb oedolion ar y tro y gall Chwaraewr gofrestru.
- Gallu Chwaraewr fod wedi'i gofrestru ag uchafswm o **DRI** chlwb oedolion mewn unrhyw dymor. Yn ystod y cyfnod hwn, dim ond **DAU** glwb oedolion y mae'r Chwaraewr yn gymwys i chwarae iddynt.
- Dim ond yn ystod cyfnod cofrestru penodol y gall Chwaraewr gofrestru.
- Dim ond os yw Chwaraewr wedi'i gofrestru â'r Gymdeithas y mae'n gymwys i gymryd rhan mewn gemau.

